(3) Yn rheoliad 7—

(a) yn y pennawd, yn lle "eraill" rhodder "penodol";

(b) ym mharagraff (2)(a), hepgorer "4,".

(4) Yn rheoliad 9, hepgorer "6(1) neu" yn y ddau le y mae'n digwydd.

(5) Yn rheoliad 12—

(a) ym mharagraff (2)(a)(ii), yn y testun Cymraeg, ar ôl "gynnal" mewnosoder "rhyngddynt";

(b) ym mharagraff (3), hepgorer is-baragraff (d).

(6) Yn rheoliad 14—

(a) ym mharagraff (1), hepgorer is-baragraff (a);

(b) yn lle'r pennawd rhodder—

*"Cyfyngiadau ar gynulliadau o dan do".*

(7) Ar ôl rheoliad 14 mewnosoder—

"**Cyfyngiad ar gynulliadau yn yr awyr agored**

**14A.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynulliad yn yr awyr agored sy'n cynnwys mwy na 30 o bobl.

(2) Mae esgus rhesymol yn cynnwys yr angen i wneud y canlynol—

(a) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;

(b) pan fo'r person yn athletwr elît, hyfforddi neu gystadlu;

(c) bodloni rhwymedigaeth gyfreithiol;

(d) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus neu gael y gwasanaethau hynny;

(e) cael gafael ar ofal plant neu gymryd rhan mewn gweithgareddau o dan oruchwyliaeth i blant."

(8) Hepgorer rheoliad 15.

(9) Yn rheoliad 17(2), hepgorer "6(1),".

(10) Yn rheoliad 18—

(a) ym mharagraff (1), hepgorer "6(1),";

(b) ym mharagraffau (4) a (6), ar ôl "14(1)" mewnosoder "neu 14A(1)".

(11) Yn rheoliad 20(1)—

(a) yn is-baragraff (a), hepgorer "6(1),";

(b) yn is-baragraff (b), ar ôl "14(1)" mewnosoder "neu 14A(1)".

(12) Yn rheoliad 20(11), yn y testun Cymraeg, yn lle "gronfeydd y" rhodder "asedau'r".

(13) Hepgorer Atodlen 1.

(14) Yn Atodlen 2—

(a) yn lle paragraff 3 rhodder—

"**3.** Lleoliadau lle y darperir cerddoriaeth fyw neu wedi ei recordio i aelodau'r cyhoedd neu aelodau'r lleoliad ddawnsio.

